Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
National Assembly for Wales
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

16 Mawrth 2020

Annwyl Lywydd

**Craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar Filiau Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd ac Amgylchedd y DU**

Rydym wrthi'n ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Filiau Amaethyddiaeth a Physgodfeydd y DU a heddiw, rydym yn clywed tystiolaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Wrth bennu 24 Ebrill 2020 yn ddyddiad cau ar gyfer adrodd ynghylch y memoranda cydsyniad deddfwriaethol hyn, rydym ar ddeall bod Llywodraeth Cymru wedi cynghori'r Pwyllgor Busnes na fyddai'n ceisio dadleuon ar y cynigion cydsyniad deddfwriaethol cyfatebol cyn 28 Ebrill 2020.

Os nad yw'r amserlen tair wythnos ar gyfer busnes y llywodraeth sydd i ddod – sy'n cynnwys yr wythnos sy'n dechrau 27 Ebrill – yn cynnwys eitemau ar gynigion cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaeth na'r Bil Pysgodfeydd, byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor Busnes yn ystyried ymestyn y dyddiadau cau ar gyfer adrodd ar y ddau Fil i 1 Mai 2020 ar y cynharaf.

At hynny, ac o ran memorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd, deallaf i Lywodraeth Cymru gynghori'r Pwyllgor Busnes nad oedd yn rhagweld cynnal dadl cydsyniad deddfwriaethol gyfatebol cyn 5 Mai 2020. Cawsom ddyddiad cau ar gyfer adrodd, felly, o 1 Mai 2020. Pe bai Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi diweddariad ar ei chynigion ar gyfer y ddadl hon ar gydsyniad deddfwriaethol, a'i bod yn amlwg y bydd yn digwydd yn hwyrach na 5 Mai, unwaith eto, byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor Busnes yn cytuno i estyniad priodol i'r dyddiad cau ar gyfer adrodd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDCC@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddLJC@assembly.wales
0300 200 6565

Yn gywir,

Mick Antoniw
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.